# CYMUNED CAERAU

**Cynigion Drafft**
Cafwyd dau gyflwyniad o blaid peidio â newid dim ar y gymuned. Cynigir felly na ddylid gwneud dim newidiadau yng nghymuned Caerau.

- Cynigir dim newid.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
1) Ni wrthodwyd dim.

# CYMUNED TREGANNA

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

**CR008 – Creu cymuned newydd Lecwydd**

- Cymuned newydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r brif reilffordd a lein Penarth/y Barri.
- Bydd y gymuned newydd yn rhychwantu cymunedau presennol Grangetown a Threganna.
- Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**CR015 – Newid Ffiniau Llandaf/y Tyllgoed/Treganna. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**

- Symud y ffin rhwng y tair cymuned hyn o'r rheilffordd ac Ely Road i Rodfa'r Gorllewin a Ffordd Waun Gron
- Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR008 – Creu cymuned newydd Lecwydd**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Cymuned Grangetown CR008 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR015 – Newid Ffiniau Llandaf/y Tyllgoed/Treganna.**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Cymuned Llandaf CR015 am fanylion pellach.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau'r Tyllgoed/Treganna**
Gweler cyflwyniad gwrthodedig Cymuned Glanyrafon (1) am fanylion pellach.

# CYMUNED TRELÁI

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR011 – Newid Ffiniau Sain Ffagan/Trelái. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud pob eiddo o gwmpas Marguerites Way a'r ffyrdd pengaead oddi arni o gymuned Sain Ffagan i Drelái.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR014 – Creu cymuned newydd "Llanfihangel-ar-Elái"**
    - Cymuned newydd yn cynnwys yr ardal i'r de o brif reilffordd Caerdydd yng nghymuned bresennol Sain Ffagan a'r ardal i'r gorllewin o Michaelston Road yng nghymuned bresennol Trelái.
    - Ni fydd y gymuned hon yn cynnwys yr ardal sydd wedi'i chynnwys dan gynnig CR011 oni bai y caiff CR011 ei wrthod.
    - Bydd y gymuned newydd yn croesi ar draws cymunedau Trelái a Sain Ffagan.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR011 - Newid Ffiniau Sain Ffagan/Trelái**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Cymuned Sain Ffagan CR011 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR014 – Creu cymuned newydd "Llanfihangel-ar-Elái"**
Cafwyd tri chyflwyniad yn gofyn am greu cymuned newydd yn rhychwantu rhan o gymunedau presennol Trelái a Sain Ffagan. Mae'r cynigion hyn yn seiliedig ar y ffaith fod gan yr ardal ei chyfleusterau ei hun o ran siopau, ysgol, swyddfa bost a thafarn. Nododd yr adolygiad er bod gwahaniaethau rhwng y cyflwyniadau o ran union ffin ardal Llanfihangel-ar-Elái, fod hon yn dal i fod yn gymuned ddiffiniedig a chanddi ffiniau corfforol yn gosod yr ardal ar wahân, sef y brif reilffordd, Afon Elái, yr A48, Michaelston Road a'r Fynwent Orllewinol. Nododd yr adolygiad nad oedd yr ardal o gwmpas Marguerites Way yn rhan o'r gymuned hon ac y dylid ei thrin fel cynnig ar wahân (CR011). Os gwrthodir cynnig CR011 yna rhagwelir y daw'r ardal hon yn rhan o Lanfihangel-ar-Elái gan na fyddai ganddi ddim cysylltiad corfforol â chymuned Sain Ffagan.
Yn hanesyddol ac yn bresennol, mae Llanfihangel-ar-Elái yn gymuned hawdd ei diffinio. Argymhellir felly y dylid cynnig creu cymuned newydd.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
1) Ni wrthodwyd dim.

# CYMUNED Y TYLLGOED

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR015 – Newid Ffiniau Llandaf/y Tyllgoed/Treganna. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Symud y ffin rhwng y tair cymuned hyn o'r rheilffordd ac Ely Road i Rodfa'r Gorllewin a Ffordd Waun Gron
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR015 – Newid Ffiniau Llandaf/y Tyllgoed/Treganna.**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Cymuned Llandaf CR015 am fanylion pellach.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid ffiniau'r Tyllgoed/Llandaf – Tangmere Drive**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am adleoli'r ardal o gwmpas Tangmere Drive, i'r gogledd o'r hen reilffordd, o'r Tyllgoed i Landaf. Adolygwyd y cyflwyniad hwn ochr yn ochr â'r cyflwyniad a ofynnai am greu cymuned newydd Danescourt o fewn Llandaf.

Wedi adolygu'r sefyllfa barnwyd, er bod rhyw radd o arwahanrwydd rhwng yr ardal a gweddill y Tyllgoed, nad yw'n rhan o gymuned Danescourt ac y caiff ei chynrychioli'n well felly o fewn ei chymuned bresennol. Felly gwrthodwyd y cyflwyniad.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Creu cymuned newydd "Pentre-baen"**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am greu cymuned Pentre-baen. Wrth adolygu'r sefyllfa gwelwyd bod gan Bentre-baen hunaniaeth hanesyddol, ond ni theimlwyd ei bod yn gymuned arwahanol gyfredol a chanddi hunaniaeth wahanol neu derfyn corfforol rhyngddi a gweddill y Tyllgoed. Argymhellir felly y dylid gwrthod y cyflwyniad.

# CYMUNED LLANDAF

## Cynigion Drafft

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR015 – Newid Ffiniau Llandaf/y Tyllgoed/Treganna. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Symud y ffin rhwng y tair cymuned hyn o'r rheilffordd ac Ely Road i Rodfa'r Gorllewin a Ffordd Waun Gron
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR017 – Creu cymuned newydd "Danescourt"**
  - Cymuned newydd wedi'i lleoli i'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd.
  - Caiff y gymuned newydd ei chynnwys o fewn ffin bresennol cymuned Llandaf.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR015 – Newid Ffiniau Llandaf/y Tyllgoed/Treganna.**
Cafwyd tri chyflwyniad yn ymwneud â'r ffin rhwng cymunedau'r Tyllgoed, Llandaf a Threganna, gyda chais am symud y ffin at y terfynau corfforol mwy o faint rhwng y 3 cymuned hyn. Seilir hyn ar y ffaith mai ffordd eilradd yw'r ffordd a ddefnyddir ar hyn o bryd ac y dylai'r ffin newydd arfaethedig barhau i ddefnyddio priffyrdd mwy fel ffiniau corfforol, sef Rhodfa'r Gorllewin a Ffordd Waun Gron. Wrth adolygu'r sefyllfa gwelwyd y byddai'r newid hwn yn gwella eglurder y ffin ac yn achos y ganolfan Ailgylchu Gwastraff ar Ffordd Waun Gron, byddai'n diogelu dyraniad cymunedol y lleoliad pe bai newid defnydd i ddefnydd preswyl yn digwydd fyth ar y safle yn y dyfodol.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR017 – Creu cymuned newydd "Danescourt"**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am greu cymuned Danescourt. Adolygwyd y cyflwyniad hwn ochr yn ochr â chyflwyniadau a ofynnai am adleoli ardal Tangmere Drive yng nghymuned y Tyllgoed i gymuned Llandaf.
Wrth adolygu'r sefyllfa nodwyd bod Danescourt yn hen gymuned hysbys, adnabyddadwy a chanddi ffiniau corfforol cryf Llantrisant Road a'r rheilffordd rhyngddi a chymunedau Llandaf a'r Tyllgoed. Ni theimlid bod ardal Tangmere Drive y Tyllgoed yn perthyn i gymuned Danescourt.
Argymhellir felly y dylid creu cymuned newydd Danescourt o fewn ffin bresennol cymuned Llandaf.

## Cyflwyniadau a Wrthodwyd

**1) Creu cyngor cymuned i gymuned Llandaf**
Cafwyd dau gyflwyniad yn cynnig y dylid creu cyngor cymuned i Landaf. Gwrthodwyd y cyflwyniadau hyn gan na chaiff yr adolygiad cymunedau greu cyngor cymuned. Mae'r adolygiad wedi cyflwyno cynigion drafft ar gyfer ffiniau'r gymuned. Unwaith y bydd yr adolygiad ar ben, mater i'r etholaeth o fewn y gymuned fydd ffurfio cyngor cymuned.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Llandaf/Glanyrafon.**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am symud The Rise, Pen-Hill Road o gymuned Llandaf i gymuned Glanyrafon er mwyn adlewyrchu lleoliad corfforol yr eiddo'n well. Wedi adolygu'r sefyllfa canfuwyd nad eiddo preswyl oedd yr eiddo, na fyddai'r cynnig yn effeithio ar unrhyw etholwyr ac y byddai ei effaith yn amherthnasol. Felly gwrthodwyd y cynnig hwn.

**3) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**
Cafwyd tri chyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynigion 'dim newid' hyn.

## CYMUNED PENTYRCH

**Cynigion Drafft**
Cafwyd tri chyflwyniad o blaid gwneud newidiadau i'r gymuned. Mae a wnelo dau o'r cyflwyniadau hyn â newid ffiniau allanol y Cyngor Sir rhwng Cyngor Caerdydd a Chyngor Rhondda Cynon Taf. Gan fod hyn y tu allan i faes llafur yr adolygiad cymunedau, cynigir na ddylid ystyried unrhyw gyflwyniadau nes bydd adolygiad o'r ffiniau rhwng y ddau gyngor a chonsensws wedi'i gyrraedd.

- Cynigir dim newid.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Estyn ffin Cymuned Pentyrch i gynnwys Grosfaen.**
Mae'r ddau gyflwyniad hyn y tu allan i faes llafur yr adolygiad cymunedau hwn gan eu bod yn effeithio ar ffin allanol Cyngor Caerdydd. Caiff y mater hwn ei adolygu ar wahân i'r adolygiad cymunedau.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Sefydlu cymunedau ar wahân ar gyfer pob ward.**
Cafwyd un cyflwyniad yn cynnig sefydlu cymuned ar wahân ar gyfer pob un o wardiau cymuned Pentyrch. Wedi adolygu'r sefyllfa penderfynwyd y dylid gwrthod y cyflwyniad nes bydd mater y ffin allanol, sef cyflwyniad (1) a wrthodwyd, wedi'i ddatrys.

## CYMUNED RADUR A THREFORGAN

**Cynigion Drafft**
Cafwyd pedwar cyflwyniad o blaid peidio â newid dim ar y gymuned. Cynigir felly na ddylid newid dim ar gymuned Radur a Threforgan.

- Cynigir dim newid.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
2) Ni wrthodwyd dim.

# CYMUNED GLANYRAFON

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR016 – Creu cymuned newydd Pontcanna**
  - Cymuned newydd wedi'i lleoli i'r gogledd o Heol y Bont-faen.
  - Caiff y gymuned newydd ei chynnwys o fewn ffin bresennol cymuned Glanyrafon.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**CR016 – Creu cymuned newydd Pontcanna**
Cafwyd dau gyflwyniad yn cynnig y dylid creu cymuned Pontcanna i adlewyrchu'r "*ardaloedd pendant gwahanol iawn eu cymeriad*" ac i gynnwys lleoliad amlwg Caeau Pontcanna. Wedi adolygu'r sefyllfa cadarnhawyd bod busnesau a chyrff cymunedol lleol yn defnyddio'r enw Pontcanna a bod cymuned Pontcanna sy'n wahanol ac yn adnabyddadwy yn lleol yn bodoli. Cynigir felly y dylid sefydlu cymuned newydd i'r gogledd o Heol y Bont-faen o fewn ffin cymuned bresennol Glanyrafon.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Glanyrafon/Treganna**
Cafwyd un cyflwyniad yn cynnig trosglwyddo bloc o dai yn Wyndham Crescent, Heol y Bont-faen, Wyndham Place, Wellington Street, Leckwith Road a Llandaf Road i Dreganna. O adolygu'r sefyllfa ni chanfuwyd bod yno elfen wahanol gref a nodai y dylai'r ardal, ac nid yr ardal o'i chwmpas, fod yn rhan o Dreganna. Ni nododd ein hadolygiad boblogaeth arwahanol na ffin gorfforol i fynnu y dylai'r trigolion hyn fod yn rhan o gymuned Treganna. Felly gwrthodwyd y cyflwyniad.

## CYMUNED SAIN FFAGAN

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR011 – Newid Ffiniau Sain Ffagan/Trelái. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud pob eiddo o gwmpas Marguerites Way a'r ffyrdd pengaead oddi arni o gymuned Sain Ffagan i Drelái.
    - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR014
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR014 – Creu cymuned newydd "Llanfihangel-ar-Elái"**
    - Cymuned newydd yn cynnwys yr ardal i'r de o brif reilffordd Caerdydd yng nghymuned bresennol Sain Ffagan a'r ardal i'r gorllewin o Michaelston Road yng nghymuned bresennol Trelái.
    - Ni fydd y gymuned hon yn cynnwys yr ardal sydd wedi'i chynnwys dan gynnig CR011 oni bai y caiff CR011 ei wrthod.
    - Bydd y gymuned newydd yn croesi ar draws cymunedau Trelái a Sain Ffagan.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR011 - Newid Ffiniau Trelái/Sain Ffagan**
Cafwyd dau gyflwyniad yn gofyn am adleoli'r eiddo o gwmpas heol bengaead Marguerites Way o gymuned Sain Ffagan i gymuned Trelái. Seiliwyd y cyflwyniadau hyn ar y ffaith nad oes gan yr ardal hon gyswllt ffordd uniongyrchol â chymuned Sain Ffagan a bod ei siopau, ysgolion a pharciau chwarae agosaf i gyd yn Nhrelái.
O adolygu'r sefyllfa nodwyd bod rhaid i drigolion yr eiddo hyn groesi cymuned Trelái i gyrraedd cymuned Sain Ffagan. Mae hyn yn arwydd cryf fod yr ardal yn y gymuned anghywir. Felly cynigir y dylid derbyn y cyflwyniadau hyn a symud yr ardal hon i gymuned Trelái. Os gwrthodir y cynnig hwn rhagwelir y daw'r ardal hon yn rhan o gymuned Llanfihangel-ar-Elái trwy fabwysiadu cynnig CR014.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR014 - Creu cymuned newydd "Llanfihangel-ar-Elái"**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Trelái CR014 am fanylion pellach.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**
Cafwyd dau gyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynigion 'dim newid' hyn.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Wardiau Cyngor Cymuned Sain Ffagan**
Cafwyd cynnig yn gofyn am sefydlu wardiau Sain Ffagan o gwmpas pentref Sain Ffagan a Rhydlafar. Seiliwyd y cyflwyniad hwn ar greu cymuned newydd Llanfihangel-ar-Elái. Gan fod y cyflwyniad hwn wedi'i wrthod a bod Cyngor Cymuned Sain Ffagan wedi datgan yn benodol nad oes arno eisiau newid ei drefniadau, gwrthodwyd y cyflwyniad hwn.

**3) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Sain Ffagan/Pentyrch**
Cafwyd un cyflwyniad yn cynnig adleoli'r eiddo yn ardal Rhydlafar o gymuned Sain Ffagan i gymuned Pentyrch. O adolygu'r sefyllfa penderfynwyd y dylid gwrthod y cyflwyniad nes bydd mater y ffin allanol, cyflwyniad Pentyrch (1) a wrthodwyd, wedi'i ddatrys.